**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Mark Isherwood AS
Cadeirydd Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

13 Mehefin 2022

Annwyl Mark

**Manylion sy'n crynhoi ac yn casglu tanwariant y Comisiwn ac yn nodi penderfyniadau a wneir i ailddyrannu'r tanwariant yn ystod 2021-22**

Yn dilyn y llythyr dyddiedig 2 Chwefror 2022 yn ymateb i **adroddiad eich Pwyllgor ar Graffu ar Gyfrifon 2020-21**, rwy'n falch i ddarparu diweddariad terfynol mewn perthynas ag Argymhelliad 1.

**Argymhelliad 1** Er budd mwy o dryloywder, rydym yn argymell, cyn y gwaith craffu blynyddol ar y cyfrifon, y dylai'r Comisiwn roi manylion i'r Pwyllgor sy'n crynhoi ac yn casglu tanwariant ac yn nodi penderfyniadau a wneir i ailddyrannu tanwariant. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn ar fformat tebyg i'r llythyr a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid

Ynghlwm mae diweddariad, fel ar 31 Mawrth 2022, yn manylu ar yr effaith y mae Covid-19 a materion eraill wedi'u cael ar sefyllfa ariannol 2021-22, gan gynnwys unrhyw arbedion a chostau ychwanegol. Mae atodiad tebyg wedi'i ddanfon at y Pwyllgor Cyllid gan Gomisiynwr, Ken Skates AS. Os oes unrhyw wybodaeth bellach byddai'n helpu'r Pwyllgor, cofiwch fod croeso ichi gysylltu â mi.

Yn gywir

**Siwan Davies**
**Clerc Dros Dro'r Senedd / Acting Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad 1**

**Argymhelliad 1** Er budd mwy o dryloywder, rydym yn argymell, cyn y gwaith craffu blynyddol ar y cyfrifon, y dylai'r Comisiwn roi manylion i'r Pwyllgor sy'n crynhoi ac yn casglu tanwariant ac yn nodi penderfyniadau a wneir i ailddyrannu tanwariant. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn ar fformat tebyg i'r llythyr a roddwyd i'r Pwyllgor Cyllid

Mae'r nodyn canlynol yn rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o'r costau a'r arbedion sy'n gysylltiedig ag effaith COVID-19 a materion eraill. Mae'n cwmpasu'r canlynol:

1. Effaith ar y Ddarpariaeth Gwyliau Blynyddol a llesiant staff
2. Effaith y cynnydd mewn swyddi gweigion, cyfyngiadau capasiti a throsiant.
3. Effaith ar Gyllidebau Maes Gwasanaeth – gwariant cyffredinol
4. Effaith ar y Gronfa Prosiect
5. Effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Dâl a Threuliau Aelodau.

**1.Effaith ar y Ddarpariaeth Gwyliau Blynyddol a llesiant staff**

Fel y tynnwyd sylw ato mewn llythyr blaenorol, mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol (IAS) 19 - Buddion Gweithwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gronni ar gyfer costau unrhyw hawl i wyliau nas defnyddiwyd a gronnwyd gan staff y Comisiwn ar 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ariannol.

Roedd y ddarpariaeth ar 31 Mawrth 2020 tua £800,000 (sy'n cynrychioli 6.9 diwrnod o wyliau blynyddol a 2 ddiwrnod o wyliau hyblyg a gronnwyd gan bob aelod o staff y Comisiwn). Erbyn 31 Mawrth 2021 roedd y ddarpariaeth hon tua £1.3 miliwn (darpariaeth ychwanegol o £0.5m), o ganlyniad i'r ffaith nad oedd rhai staff yn gallu cymryd gwyliau ac eraill nad oeddent eisiau cymryd gwyliau yn ystod y pandemig yn 2020-21.

Roedd y lefel hon yn uwch na'r lefel arferol o absenoldeb heb ei gymryd, a pharhaodd yn ystod 2021-22; fodd bynnag, lle gallem fod wedi disgwyl i'r ddarpariaeth hon leihau, nid oedd hyn yn wir erbyn canol y flwyddyn (Medi 2021).
Felly, neilltuwyd swm o £150,000 yn y gyllideb (h.y. heb ei ddefnyddio at ddibenion eraill) i liniaru yn erbyn y risg o unrhyw gynnydd pellach yn lefel yr absenoldeb heb ei gymryd.

Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth wirioneddol a oedd yn ofynnol ar 31 Mawrth 2022 yn is nag ar 31 Mawrth 2021, yn dilyn anogaeth weithredol i staff gymryd gwyliau blynyddol yn ystod wythnos y toriad yn arwain at Nadolig 2021. Rhyddhaodd cyfrif diwedd blwyddyn 2021-22 £100,000 o'r ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol cronedig, gan arwain at £250,000 o gyllideb heb ei defnyddio o fewn y gyllideb costau staffio ar 31 Mawrth 2022.

**Tabl 1**

| | 31-Mawrth-20 £'000 | 31-Mawrth-21 £'000 | 31-Mawrth-22 £'000 |
|---|---|---|---|
| Darpariaeth ar ddiwedd y flwyddyn | £800 | £1,300 | £1,200 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) | | £500 | (£100) |

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu cymryd yn parhau i fod yn uwch na'r arfer/cyn y pandemig a rhoddir sylw gweithredol i hyn i sicrhau llesiant y staff.

**2.Effaith y cynnydd mewn swyddi gweigion, cyfyngiadau capasiti a throsiant.**

Fel y nodir mewn llythyr blaenorol (2 Chwefror 2022), mae ansicrwydd y pandemig wedi arwain at lai o drosiant staff yn ystod y 18 mis diwethaf. Yn naturiol wrth i'r pandemig barhau, mae'r Comisiwn unwaith eto'n gweld lefelau mwy arferol yn dychwelyd, sef cynnydd mewn trosiant. Arweiniodd y cynnydd hwn, ynghyd â nifer o ffactorau eraill, at lefel uwch o swyddi gwag i'w llenwi yn ystod ail hanner 2021-22 ac mae hyn wedi parhau i 2022-23, gan ychwanegu at y pwysau cynyddol ar staff y Comisiwn. Arweiniodd y lefel uwch o swyddi gwag at tua £700,000 o gyllideb staffio heb ei defnyddio.

Ynghyd â lefel uwch o drosiant, mae ffactorau eraill yn cyfrannu at y lefel uchel o swyddi gwag, yn cynnwys:

- mae swyddi penodol a gafodd eu rhewi dros dro yn ystod y ddwy flynedd diwethaf o ganlyniad i lai o wasanaethau yn ystod Covid, wedi eu rhyddhau bellach ar gyfer recriwtio,
- mae swyddi a gafodd eu rhewi dros dro yn arwain at yr etholiad a strategaeth ganlyniadol y Comisiwn, wedi eu rhyddhau ar gyfer recriwtio,
- swyddi ychwanegol newydd a grëwyd i gefnogi'r pwysau capasiti newydd sy'n deillio o ffyrdd hybrid o weithio, cynyddu bygythiadau seiber a diogelwch corfforol, cynyddu llywodraethu gwybodaeth a gofynion iechyd a diogelwch a strwythurau Pwyllgorau newydd,
- prinder ymgeiswyr mewn swyddi sy'n anodd recriwtio iddynt, er enghraifft swyddi cyfnod penodol ac arbenigeddau a geisir, megis dadansoddwyr busnes a dadansoddeg data, a;
- phenderfyniad y Bwrdd Gweithredol i leihau cyflymder recriwtio mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod gofynion capasiti newydd yn 2022-23 yn fforddiadwy.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gweithio'n ddygn gyda rheolwyr recriwtio i flaenoriaethu swyddi gwag, ystwytho adnoddau mewnol presennol lle bo hynny'n bosibl, a chanolbwyntio ymdrechion o ran adnoddau yn y meysydd hynny sy'n peri anawsterau penodol yn y farchnad.

### 3. Effaith ar Gyllidebau Maes Gwasanaeth – gwariant cyffredinol

Mae effaith pandemig COVID-19 ar wariant cyffredinol y Comisiwn o ddydd i ddydd wedi bod yn amrywiol yn ystod 2020-21 a 2021-22 ac mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am feysydd lle nad yw gweithgarwch wedi dychwelyd eto i lefelau cyn y pandemig h.y. mae'r tabl yn dangos yr amrywiant rhwng y gyllideb wreiddiol a'r gwariant gwirioneddol (nid y gwariant gwirioneddol).

**Tabl 2 - Costau is neu arbedion yn erbyn Cyllidebau Gwasanaeth**

| Arbedion yn erbyn y Gyllideb | 2020-21 £ | 2021-22 £ |
|---|---|---|
| Llai o gostau cyfleustodau | 130,000 | 125,000 |
| Costau Heddlu a Diogelwch | 175,000 | 72,000 |
| Costau teithio staff | 150,000 | 121,000 |
| Gwariant y Comisiwn yn ymwneud ag Aelodau* | 168,000 | 168,000 |
| Costau cyfieithu allanol | 47,000 | 76,000 |
| Addysg a Digwyddiadau | 78,000 | 202,000 |
| Argraffu a chostau llythyru | 117,000 | 222,000 |
| Lletygarwch | 31,000 | 22,000 |
| Hyfforddiant a Recriwtio | 89,000 | - |
| **Cyfanswm** | **985,000** | **1,008,000** |

*yn cynnwys e.e. hyfforddiant i Aelodau, deunydd ysgrifennu a chostau ymgysylltu rhyngwladol. Ariennir y cyfan o gyllideb weithredol y Comisiwn.

Mae'r tabl canlynol yn rhoi trosolwg ar eitemau eraill sydd wedi effeithio ar gyllidebau 2021-22 y gwasanaeth, gan arwain at ostyngiad net o £792,000 mewn gwariant ym meysydd gwasanaeth.

**Tabl 3**

| | **2021-22<br>£** |
|---|---|
| **Arbedion yn erbyn y gyllideb yn unol â Thabl 4** | **1,008,000** |
| **Dibrisiant** | (150,000) |
| **Gwariant sy'n fwy na'r gyllideb:** | |
| • Glanhau | 26,000 |
| • Gwasanaethau cwmwl | 118,000 |
| • Ymgynghoriaeth a chostau cyfreithiol | 49,000 |
| • Archifo | 29,000 |
| • Band eang | 55,000 |
| • Recriwtio | 24,000 |
| • Gwaith cynnal a chadw a drefnwyd/ymatebol | 37,000 |
| Llai o incwm - net o'r costau | 28,000 |
| **Cyfanswm** | **792,000** |

**4.Effaith ar y Gronfa Prosiect**

Roedd Cyllideb 2021-22 yn amlygu bod £0.96 miliwn o wariant i'w ariannu o Gronfa Prosiect y Comisiwn. Pennwyd cyllideb cronfa prosiect 2021-22 ar lefel is nag yn 2020-21 a 2022-23 (£1.515 ac £1.5 miliwn yn y drefn honno) er mwyn rheoli cynnydd cyllideb weithredol y Comisiwn i ddim mwy nag 1%. Y gwariant gwirioneddol ar y gronfa prosiect yn ystod 2021-22 oedd £1.965 miliwn. Ariannwyd y cynnydd hwn o'r arbedion net cysylltiedig â COVID-19 a nodir yn Nhabl 3.

**Tabl 4 – Effaith Covid ar Gyllideb y Gronfa Prosiect**

| | **Cyllideb 2021-22** | **Gwirioneddol 2021-22** |
|---|---|---|
| **Cronfa Prosiect 2021-22** | **Swm £'000** | **Swm £'000** |
| Meddalwedd Legislative Workbench | £240 | £240 |
| Gweithgareddau Ymgysylltu ac Allgymorth | £200 | £41 |
| Gwariant ar brosiect Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau | £245 | £423 |
| Gwelliannau Diogelwch Corfforol | - | £101 |
| Gwelliannau Cynaliadwyedd **(Gweler Tabl 5)** | - | £323 |
| Drysau tân newydd | - | £111 |
| Gwariant ar brosiect TGCh | £275 | £217 |
| Uwchraddio'r System Gyllid | - | £144 |
| Adnewyddu cylchol Gliniaduron y Comisiwn – c/y o 2022-23 | - | £365 |
| **Cyfanswm** | **£960** | **£1,965** |
| **Cynnydd** | | **£1,005** |

Canfuwyd tanddefnyddio'r canlynol yn gynnar:

- cyllideb cronfa prosiect ymgysylltu ac allgymorth,
- y meysydd cyllideb a nodir yn nhabl 3 uchod, a'r
- gyllideb costau staffio

yn ystod 2021-22, gan arwain y Comisiwn i ystyried yn ofalus a ellid blaenoriaethu'r cyllid a oedd ar gael mewn mannau eraill.

Roedd ailddyrannu'r cronfeydd hyn, yn galluogi'r gwelliannau ychwanegol i'r system diogelwch, cynaliadwyedd a chyllid (a ddangosir yn nhabl 4) i fwrw ymlaen heb yr angen am gyllideb atodol a hefyd yn galluogi prosiect adnewyddu gliniaduron y Comisiwn i gael ei gyflymu o 2022-23 er mwyn achub y blaen ar unrhyw godiadau mewn prisiau chwyddiant a/neu oedi a phrinder.

Nododd y Comisiwn argymhelliad y Pwyllgor Cyllid, a gynhwyswyd yn ei Adroddiad ar Graffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Senedd ar gyfer 2022-2023, ac ymatebodd yn brydlon iddo:

**Argymhelliad 8 (Pwyllgor Cyllid).** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn blaenoriaethu ac yn gweithredu newidiadau sy'n gysylltiedig â'i Strategaeth Carbon Niwtral 2021-2030 sy'n syml ac yn gost-effeithiol, ar y cyfle cyntaf.

Cyflymodd y Comisiwn wariant ar fentrau cysylltiedig â chynaliadwyedd a glustnodwyd ar gyfer 2022-23, yn ystod 2021-22. Roedd yr eitemau'n cynnwys:

**Tabl 5**

| **Disgrifiad** | **2021-22** |
|---|---:|
| Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan Ychwanegol | £15,000 |
| Amnewid Batris UPS | £18,000 |
| Gosod Ffotofoltäig Solar – Astudiaeth Ddichonoldeb | £20,000 |
| Cam 4 LED Tŷ Hywel | £105,000 |
| Cam 5 LED Tŷ Hywel | £105,000 |
| Gwelliannau Gwresogi Ty Hywel | £60,000 |
| **Cyfanswm** | **£323,000** |

I grynhoi, rhyddhawyd swm net o £792,000 (Tabl 3) o gyllidebau'r meysydd gwasanaeth nad ydynt yn ymwneud â staff; rhyddhawyd £950,000 hefyd o'r gyllideb staffio, gan roi cyfanswm o £1.7 miliwn.

Defnyddiwyd yr £1.7 miliwn hwn yn rhannol i ategu'r lefel is o gyllid prosiect a ddyrannwyd i ddechrau yn 2022-23 (£1 miliwn, Tabl 4) ac roedd y swm a oedd yn weddill (£700,000) yn parhau heb ei ddefnyddio ar 31 Mawrth 2022. Ni all y Comisiwn gario'r arian hwn ymlaen ac ni chafodd y gofyniad arian cyfatebol ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

## 5. Effaith ar y cyllid a ddarperir i'r Comisiwn i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar Dâl a Threuliau Aelodau.

Mae effaith pandemig COVID-19 ar y cyllid a ddarparwyd i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau wedi'i amrywio fel y dangosir yn Nhabl 6 isod. Cafodd etholiad y Senedd yn 2021 hefyd effaith ar ffigurau 2021-22.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwariant gwirioneddol yn 2019-20, 2020-21 a 2021-22.

**Tabl 6**

| Gwariant - £000 | Gwirioneddol 2019-20 | Gwirioneddol 2020-21 | Gwirioneddol 2021-22 |
|---|---|---|---|
| Costau Cyflogau Aelodau | 6,246 | 6,236 | 6,165 |
| Costau cyflogau Staff Cymorth yr Aelodau | 7,313 | 8,073 | 7,767 |
| Costau Teithio | 280 | 47 | 146 |
| Costau Swyddfa a Chostau Eraill | 1,118 | 1,238 | 1,364 |
| **Cyfanswm** | **14,956** | **15,595** | **15,442** |

Roedd y gwariant cyffredinol yn erbyn cyllideb y Penderfyniad yn uwch yn ystod 2020-21 nag yn 2019-20 a 2021-22, er gwaethaf rhewi cyflogau'r Aelodau a llai o wariant ar deithio a gafwyd yn 2020-21. Y rheswm am hyn oedd y trosiant is na'r arfer o staff cymorth Aelodau, gan arwain at lai na'r disgwyl o swyddi gwag a chyfanswm costau cyflog uwch.

Roedd costau staff cymorth Aelodau yn is yn ystod 2021-22, oherwydd lefel uwch o swyddi gwag o ganlyniad i etholiad 2021.  Cynyddodd costau teithio yn ystod 2021-22 ond roedd yn dal i fod yn is na 2019-20.

Cyfanswm y tanwariant yn erbyn cyllideb 2021-22 a roddwyd i'r Comisiwn i gyflawni rhwymedigaethau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau oedd £178,000, ni chafodd hyn ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru yn ystod 2021-22.

(Mae'r holl ffigurau'n destun archwiliad).